Gwybodaeth WLGA

Deddf 'Cydraddoldeb' 2010
Dyletswyddau sector cyhoeddus Cymru
Gorffennaf 2011

David Morgan
029 2044 8663 – david.morgan@wlga.gov.uk

Cefndir
Diben Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 yw gofalu bod chwarae teg i bawb trwy roi terfyn ar anffafrio, hyrwyddo cyfleoedd a deilliannau cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol unigolion a chymunedau.

Mae'n cymryd lle 116 o statudau ar wahân am gydraddoldeb gan symleiddio ac egluro rôl yr awdurdodau lleol yn arweinyddion ynglŷn â gwella cydraddoldeb ymhlith amryw gymunedau a'u dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dyletswyddau penodol ac iddyn nhw ofynion manwl ac ymestynnol i'r awdurdodau lleol – er y bydd y pwyslais ar 'ystyriaeth briodol' yn rhoi i'r awdurdodau ragor o ryddid i ateb problemau lleol a bod yn atebol i'w cymunedau.

Pwy mae'r ddeddf yn eu diogelu?
Mewn gwirionedd, pawb. Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- **Oedran**
- **Newid rhyw**
- **Rhyw**
- **Tras – gan gynnwys tarddiad cenhedlig/cenedlaethol, lliw a chenedl**
- **Anableddau**
- **Bod yn feichiog a chyfnodau mamolaeth**
- **Tueddfryd rhywiol**
- **Crefydd neu gred**

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafrio.

Y ddyletswydd gyffredinol
Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

1. Cael gwared ar anffafrio, aflonyddu, erlid ac unrhyw ymddygiad arall mae'r ddeddf yn ei wahardd.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl ac iddyn nhw un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodwedd honno.

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl ac iddyn nhw un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodwedd honno.

Dyna amcanion y ddeddf, yn y bôn. O roi ystyriaeth briodol i'r angen i'w cyflawni, rhaid:

- chwalu neu leddfu'r anfanteision mae pobl yn eu profi achos eu bod yn ymwneud â'r un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl y carfanau sydd wedi'u diogelu, lle maen nhw'n wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl ac iddyn nhw nodweddion sydd wedi'u diogelu i ymgysylltu â bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae nifer cymharol fychan ohonyn nhw.

Hanfod meithrin cydberthynas dda, yn ôl y ddeddf, yw mynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl ac iddyn nhw un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodwedd honno. Bydd hynny'n cynnwys y math o waith mae awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol wedi datblygu yn barod ar gyfer cydlynu cymunedau, yn ogystal â mentrau eraill nad ydyn nhw wedi bod yn rhan o faterion cydraddoldeb o'r blaen megis prosiectau rhwng cenedlaethau.

Dyletswyddau penodol i awdurdodau lleol Cymru

Mae pob un o'r dyletswyddau penodol sydd yn *Rheoliadau Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011* yn berthnasol i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol y wlad ac eithrio dyletswydd benodol sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru baratoi adroddiad gan Weinidogion Cymru am sut mae awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Dyma'r gofynion i awdurdodau lleol:

Amcanion a chynlluniau strategol ar gyfer cydraddoldeb

Mae gofyn i bob awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi amcanion a chynllun strategol ar gyfer cydraddoldeb erbyn **2il Ebrill 2012**. Diben yr amcanion a'r cynlluniau yw gofalu y bydd yn bosibl hwyluso deilliannau mae modd eu mesur o ran gwella bywydau unigolion a chymunedau. Bydd hynny'n galluogi awdurdodau i fod yn fwy rhagweithredol ynglŷn â chynllunio ar gyfer cydraddoldeb, monitro'r hyn sydd wedi'i gyflawni, llunio adroddiadau yn ôl anghenion lleol a gwella cydraddoldeb yn ôl amgylchiadau lleol.

Mae'r gofyn i bennu amcanion ar gyfer cydraddoldeb yn cyd-fynd â'r elfen sy'n ymwneud â 'thegwch' yn Rhaglen Gwella Cymru. Yn ddelfrydol, bydd amcanion/cynllun strategol y cyngor ar gyfer cydraddoldeb yn cydblethu'n eglur â'i strategaeth gymunedol, ei gynllun gwella neu ei strategaeth gorfforaethol. Mae canllawiau am wneud hynny ym mhapur WLGA am gydraddoldeb a chynllunio cymunedol:

http://www.wlga.gov.uk/english/equalities-publications/wlga-advice-note-promoting-equality-within-community-planning/

Rhaid cymathu amcanion cydraddoldeb ym mhrif ffrwd gwaith adrannau/gwasanaethau fel y gallan nhw helpu i wella cydraddoldeb a rheoli eu hymrwymiadau yn y maes hwn yn rhan o'u hymrwymiadau i wella bywydau eu cwsmeriaid a gwella'n gyffredinol.

Mae modd gwneud hynny trwy Sustem Ffynnon neu ffyrdd eraill o reoli perfformiad er mwyn paratoi adroddiadau am weithgareddau hybu cydraddoldeb sy'n berthnasol i gynlluniau strategol a gwasanaethol heb ddyblygu data.

Os yw awdurdod yn dewis peidio â chyhoeddi amcan ar gyfer pob un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu, mae gofyn iddo gyhoeddi rhesymau cadarn dros wneud hynny. Fe fydd sawl amcan yn arwain at fuddion i amryw garfanau, fodd bynnag.

Ymgysylltu

O ddeall cymhlethdod gwahanol anghenion dinesydd, gall sefydliad bennu'r ffordd orau o gynnig gwasanaethau ar eu cyfer. Er na fydd modd diwallu yr anghenion i gyd, fe fydd sefydliad sy'n eu deall yn dda mewn gwell sefyllfa i neilltuo adnoddau gwerthfawr ar eu cyfer yn y lle iawn, yn y ffordd iawn ac ar yr adeg iawn. Mae'r dyletswyddau'n gofyn i'r awdurdodau ymgysylltu'n ystyrlon â phobl wrth bennu amcanion ac asesu effeithiau ar gydraddoldeb. Yn rhan o broses casglu gwybodaeth berthnasol, bydd angen i awdurdod ymgysylltu â'r bobl briodol ynglŷn ag asesu'r modd mae'n cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Rhaid i bob awdurdod gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai ac iddyn nhw un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu neu ragor ynglŷn â'r modd mae'r awdurdod hwnnw yn cyflawni ei swyddogaethau. Mae rhagor o ganllawiau am weithgareddau ymgysylltu yn fersiwn newydd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb WLGA:

http://www.wlga.gov.uk/english/equality-improvement-framework-for-wales/

Asesu effeithiau

Mae rôl ac ehangder prosesau asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb wedi'u hegluro yn y dyletswyddau newydd. Rhaid asesu effeithiau pan fo polisi neu arfer yn cael ei gynnig neu ei adolygu mewn meysydd megis cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fo asesiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Gwybodaeth am gydraddoldeb

Dylai'r awdurdodau bennu amcanion, asesu effeithiau a pharatoi cynlluniau strategol yn ôl tystiolaeth a dadansoddi cadarn. Mae achosion cyfreithiol diweddar megis *R.Rahman yn erbyn Cyngor Dinas Birmingham* wedi pwysleisio bod angen asesu unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb – gan gynnwys penderfyniadau ariannol – yn ôl tystiolaeth gadarn. O ganlyniad, mae ar yr awdurdodau ddyletswydd i gasglu amrywiaeth o wybodaeth fydd yn ychwanegu at y dystiolaeth. Mae gofyn iddyn nhw ystyried pa wybodaeth sydd gyda nhw a pha wybodaeth ychwanegol y byddai angen ei chasglu i ddangos eu bod yn cyd-fynd â'r ddyletswydd gyffredinol.

Wrth gasglu gwybodaeth, bydd modd cynnwys ffynonellau lleol megis arolygon o farn cwsmeriaid, canlyniadau prosesau asesu effeithiau ar gydraddoldeb a sylwadau ffora cymunedol yn ogystal ag adnoddau gwladol megis y Cyfrifiad, yr arolwg blynyddol o boblogaeth y DG ac adroddiadau am faterion sy'n berthnasol i'r carfanau dan sylw. Fe ddylai'r awdurdodau geisio creu darlun o anghenion cymunedau lleol a'i ddadansoddi yn ôl yr amryw nodweddion sydd wedi'u diogelu.

Gwybodaeth am gyflogaeth

Mae'r dyletswyddau penodol newydd yng Nghymru yn gofyn i awdurdodau gasglu a chyhoeddi gwybodaeth helaeth am gyflogaeth bob blwyddyn hefyd, gan gynnwys data am ddenu a chadw gweithwyr, dyrchafu, cyfleoedd i fanteisio ar hyfforddiant, cwynion a chamau disgyblu. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth honno ar gyfer **pob un** o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu. Mae angen cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â gweithwyr o ferched a dynion gan gynnwys data am eu rolau yn y gwaith, eu cyflogau, eu graddau, eu cytundebau a'u patrymau gweithio.

Cofiwch, fodd bynnag, na chaiff awdurdod fynnu i weithiwr ddatgelu gwybodaeth am y nodweddion sydd wedi'u diogelu. Felly, yn aml, bydd yn ddefnyddiol casglu a chyhoeddi ystadegau am ddau gategori arall, sef 'anhysbys' a 'gwell peidio â dweud'. Gall data o'r fath adlewyrchu pryderon am breifatrwydd a lefel yr hyder mewn trefniadau ar gyfer hel gwybodaeth a hybu cydraddoldeb.

Gwahaniaethau mewn cyflogau

Mae gofyn i awdurdodau lleol nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth am wahaniaethau rhwng cyflogau gweithwyr ac iddyn nhw **unrhyw** nodwedd sydd wedi'i diogelu a'r rhai nad ydyn nhw ymwneud â'r nodweddion o gwbl. At hynny, mae gofyn i bob awdurdod ystyried yr wybodaeth honno wrth bennu ei amcanion ar gyfer cydraddoldeb. Rhaid i awdurdod gyhoeddi amcan a chynllun gweithredu i gywiro unrhyw wahaniaeth rhwng cyflogau **merched a dynion** neu gyhoeddi ei resymau dros beidio â gwneud hynny. Bydd modd cynnwys camau o'r fath yn ei gynllun strategol ar gyfer cydraddoldeb.

Hyfforddi staff

Mae gofyn i bob awdurdod annog ei weithwyr i ddarllen a deall y dyletswyddau penodol a'r ddyletswydd gyffredinol gan ofalu bod gweithdrefnau asesu eu gwaith megis arfarnu personol neu adolygu datblygu personol yn cael eu defnyddio i nodi a diwallu anghenion o ran eu hyfforddi.

Caffael

Mae'r ddyletswydd gyffredinol sydd wedi'i disgrifio ar dudalen 1 uchod yn berthnasol i bob trafodyn beth bynnag fo gwerth y cytundeb. Hyd yn oed lle mae'r gwasanaeth dan sylw wedi'i ddirprwyo i gorff arall, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol o hyd.

Mae'r ddyletswydd benodol yn berthnasol pan fo awdurdod lleol yn prynu gweithiau, nwyddau a gwasanaethau o sefydliad arall yn ôl 'cytundeb perthnasol' megis 'contract cyhoeddus' neu 'fframwaith cytundeb' sy'n destun rheoleiddio trwy Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (Cyfarwyddeb 2005/18/Undeb Ewrop).

Mae'r ddyletswydd benodol yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried a fyddai'n briodol pennu gofynion ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol ynglŷn â meini prawf rhoi'r cytundeb a/neu amodau ei weithredu.

Er enghraifft: gofyn i'r rhai sy'n cynnig am gytundeb roi tystiolaeth am eu gweithdrefnau a'u polisïau ym maes cydraddoldeb; gofyn i gartrefi gofal ddangos eu bod yn monitro pa mor fodlon yw'r rhai ac iddyn nhw nodweddion sydd wedi'u diogelu ar eu gwasanaethau.

Dylai awdurdodau lleol a hoffai arddel yr arferion gorau ystyried pennu gofynion o'r fath lle bo'n berthnasol beth bynnag fo gwerth y cytundeb.

Paratoi a chyhoeddi adroddiadau

Mae gofyn i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad am gydraddoldeb bob blwyddyn i ddisgrifio'r camau mae wedi'u cymryd i:

- nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol;
- defnyddio'r wybodaeth honno ar gyfer tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

At hynny, dylai'r adroddiad gynnwys datganiad ynglŷn â pha mor effeithiol yw trefniadau nodi a chasglu gwybodaeth yr awdurdod yn ogystal â'r rhesymau dros fethu â chasglu unrhyw wybodaeth sydd wedi'i nodi. Dylai sôn hefyd am gynnydd yr awdurdod ynglŷn â chyflawni ei amcanion ym maes cydraddoldeb, a gall gynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chrybwyll uchod am gyflogaeth os nad yw wedi'i chyhoeddi rhywle arall. Rhaid cadw at y deddfau a'r canllawiau perthnasol o ran diogelu data, fodd bynnag. Lle nad oes llawer o bobl yn perthyn i un o'r carfanau sydd wedi'u diogelu, efallai na ddylech chi gyhoeddi'r wybodaeth fel na fydd yn hysbys pwy ydyn nhw.

Rhoi gwybodaeth ar gael

O gyhoeddi dogfennau neu wybodaeth i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol neu un o'r dyletswyddau penodol, rhaid i'r awdurdodau lleol ofalu bod y deunydd ar ffurf y gall pobl sy'n perthyn i'r carfanau dan sylw ei darllen yn hawdd.

Adolygu

Rhaid adolygu'r amcanion ar gyfer cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd. Mae gofyn i'r awdurdod gadw golwg ar y modd mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol, hefyd.

Fersiwn newydd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru

Mae fersiwn newydd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb WLGA yn dweud fel a ganlyn:

'O wella cydraddoldeb, byddwch chi'n cyflawni llawer mwy nag ateb gofynion y gyfraith. Bydd buddion i'r awdurdodau lleol a'r dinasyddion maen nhw'n eu gwasanaethu fel ei gilydd. Gweithio'n well, bodloni rhagor o gwsmeriaid, rhagor o effeithlonrwydd a rhagor o hyder a chymhelliant ymhlith y staff – dyma rai o'r manteision a ddaw yn sgîl gwella cydraddoldeb.'

Mae'r fframwaith wedi'i ddiweddaru i helpu i gydymffurfio â Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 gan gynnwys y dyletswyddau penodol i Gymru. Ei nod yw helpu awdurdodau ynghylch:

- **Ymgysylltu â chymunedau**
- **Arwain ac ymrwymo'n gyfundrefnol**
- **Hwyluso deilliannau**
- **Paratoi'r gweithlu**

Datblygiad pwysig newydd yw helpu awdurdodau i adolygu eu gwaith trwy gymorth eu cyfatebion ym myd llywodraeth leol. Mae manylion y broses adolygu yn y canllawiau am y fframwaith, a dylai awdurdodau a hoffai gymryd rhan ynddi gysylltu â:

David Morgan: Swyddog Polisïau Cydraddoldeb
029 2046 8663 neu david.morgan@wlga.gov.uk

Dyddiadau pwysig o ran dyletswyddau'r sector cyhoeddus ym maes cydraddoldeb	
5ed Ebrill 2011	Y ddyletswydd gyffredinol ar waith.
6ed Ebrill 2011	Dyletswyddau penodol ar waith yng Nghymru.
2il Ebrill 2012	Rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi amcanion a chynlluniau strategol ar gyfer cydraddoldeb.
2il Ebrill 2012	Dylai awdurdodau lleol Cymru fod wedi ymgysylltu â'r bobl briodol yn rhan o broses casglu'r wybodaeth y bydd ei heisiau i asesu eu gweithgareddau yn ôl y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth o'r fath fel y bo'n briodol.

Dolenni â rhagor o wybodaeth
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Canllawiau anstatudol http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/guidance-on-the-equality-duty-for-the-welsh-public-sector/
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Pa mor deg yw Cymru? http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/cyhoeddiadau-yng-nghymru/pa-mor-deg-yw-cymru/